



**Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru:**

# **Cwricwlwm drafft i Gymru 2022**

**16 Gorffennaf 2019**

ColegauCymru  
Uned 7 Cae Gwyrdd  
Greenmeadow Springs  
Tongwynlais, Caerdydd CF15 7AB  
Ff: 029 2052 2500  
E: [helo@colegaucymru.ac.uk](mailto:helo@colegaucymru.ac.uk)  
W: [www.colegaucymru.ac.uk](http://www.colegaucymru.ac.uk)

CollegesWales  
Unit 7 Cae Gwyrdd  
Greenmeadow Springs  
Tongwynlais, Cardiff CF15 7AB  
T: 029 2052 2500  
E: [hello@collegeswales.ac.uk](mailto:hello@collegeswales.ac.uk)  
W: [www.collegeswales.ac.uk](http://www.collegeswales.ac.uk)

## Sylwadau

---

Mae ColegauCymru yn parhau'n gefnogol o amcanion y Cwricwlwm newydd i Gymru. Rydym yn croesawu'r camau a gymerwyd eisoes gan Lywodraeth Cymru i ymgysylltu â'r sector Addysg Bellach ac yn cymeradwyo'r ddeialog gyson. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod ymgysylltiad a chydweithio effeithiol â'r sector Addysg Bellach, mae angen newid y dull o weithio'n sylweddol.

Ar hyn o bryd, mae ymgysylltu â'r sector Addysg Bellach yn digwydd drwy gyfarfodydd ar hap â Phrif Weithredwr a/neu Gyfarwyddwr Polisi a Materion Cyhoeddus ColegauCymru, yn ogystal â thrwy wahoddiadau i Fforwm Penaethiaid ColegauCymru. Yn ogystal, mae cynrychiolydd o'r sector Addysg Bellach yn eistedd ar bob un o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad (AOLE) i ddarparu persbectif Addysg Bellach yn ogystal â mewnbwn arbenigol yn y maes penodol hwnnw. Mae'r lefel o ymgysylltu a chydweithio fel y mae yn annhebygol, yn ein barn ni, o sicrhau'r canlyniad gorau. Er bod cynrychiolwyr AOLE yn darparu persbectif pwysig, nid oes unrhyw gymorth na mecanwaith iddynt roi adborth neu gynnull cydweithwyr ar draws y sector. Mae'n hanfodol bwysig clywed y safbwyntiau ehangach o Addysg Bellach, a chwrdd i gymharu profiadau ar draws gwahanol Feysydd Dysgu a Phrofiad (AOLE). Byddai ColegauCymru yn hapus i hwyluso'r gwaith hwn ond nid oes ganddo'r capasiti staff i gyflawni'r swyddogaeth hon yn effeithiol.

Mae'r colegau hynny sydd â chynrychiolydd ar un o'r AOLEs yn gyffredinol yn dangos lefel uwch o ymgysylltiad ac ymwneud â'r cwricwlwm newydd. Mae hyn yn awgrymu bod cysylltiad a chyfranogiad yn cynyddu brwdfrydedd yn ogystal â dealltwriaeth. Mae'r swyddogaethau hefyd yn creu eiriolwyr yn y gymuned addysg ehangach dros y newidiadau a'r manteision a ddaw yn sgil diwygio'r cwricwlwm. Y cyngor gorau i Lywodraeth Cymru fyddai mynd ati i wneud gwaith ymgysylltu yn fwy cyson y tu hwnt i'r chwe rôl gynrychioliadol AOLE.

Mae anawsterau ychwanegol wedi deillio o'r ffaith bod aelodau o dîm Llywodraeth Cymru, a oedd yn arwain ar y cwricwlwm newydd ac yn ymgysylltu â ColegauCymru, wedi gadael eu swyddi yn ystod y misoedd diwethaf. Mae hyn wedi gwneud cyfathrebu'n dameidiog ac mewn rhai achosion mae wedi effeithio ar ymgysylltu â'r sector Addysg Bellach ar y gwaith pwysig sydd ar y gweill.

Mewn cyferbyniad, er mwyn paratoi'r Sector ar gyfer deddfwriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol, mae'r Llywodraeth wedi cyfrannu £105,000 bob blwyddyn ers 2018 ar gyfer staff a gweithgareddau cefnogol yn y maes hwn drwy 'Arweinydd Trawsnewid'. Gwnaed buddsoddiad sylweddol hefyd mewn pedwar 'Arweinydd Trawsnewid' sydd wedi eu lleoli mewn awdurdodau lleol ac sy'n cwmpasu ardal pob Consortia Addysg. Mae'r Arweinydd

Trawsnewid Addysg Bellach yn gweithio'n uniongyrchol gyda cholegau, gan gydlynu gweithgareddau paratoi a hyfforddiant ar draws y sector, a chan adrodd ar gynnydd i Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn caniatáu i ymdrechion ar draws y sector addysg ehangach gael eu symleiddio, yn ogystal â thynnu'r sylw at heriau a'u datrys wrth iddynt godi. Mae'r model hwn hyd yma yn un llwyddiannus, ac fe hoffai ColegauCymru annog Llywodraeth Cymru i ystyried model tebyg o weithio er mwyn cysylltu'r gwaith sy'n cael ei wneud ar y cwricwlwm oedran ysgol gyda dysgu ôl-16.

Nid yw'r ymgynghoriad presennol yn ystyried yn ddigonol faterion sy'n ymwneud â'r newid i addysg ôl-orfodol, gan gynnwys AB, dysgu seiliedig ar waith neu brifysgol, a sut mae angen i'r cwricwlwm newydd weithredu yma. Yn yr un modd, mae ColegauCymru yn derbyn bod y pwyslais presennol ar y cwricwlwm diwygiedig hyd at 16 oed. Fel cam nesaf, hoffai ColegauCymru ddadlau bod angen ffocysu ar y ffordd y mae'r newidiadau yn cysylltu â'r sector ôl-orfodol, a pha ystyriaeth sydd i'r diwygiadau sylweddol wrth gynnal yr ymgynghoriad ar y Comisiwn ar Addysg Drydyddol Arfaethedig nesaf? Mae angen i'r drafodaeth hefyd gwmpasu sawl maes arall sydd ar fin newid. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, adolygiad Cymwysterau Cymru o gymwysterau galwedigaethol mewn meysydd fel gofal. Drwy wneud hyn, gellir ystyried canfyddiadau i sicrhau y gall dysgwyr symud ymlaen yn llwyddiannus i gyrsiau technegol ar ôl dilyn y cwricwlwm newydd.

Er ein bod yn derbyn ac yn croesawu barn swyddogion mai nod y newidiadau yw cynorthwyo dilyniant, mae angen rhoi mwy o sylw i greu system bontio gadarnhaol o un cyfnod addysg i'r nesaf. Bydd angen ystyried y tymor byr i ganolig, yn ogystal â meddwl am yr adeg pan fydd y newidiadau i'r cwricwlwm yn dod i rym a'r effeithiau uniongyrchol ar addysg ôl-16. Hynny yw, ni ddylai'r newidiadau deddfwriaethol a gynigir ar gyfer y cwricwlwm addysg gyffredinol arwain at ymagwedd 'big bang' tuag at bontio i chweched dosbarth, AB neu AU.

Dr Rachel Bowen

**Cyfarwyddwr Polisi a Ddatblygu, ColegauCymru**

Rachel.bowen@colegaucymru.ac.uk